OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 353

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020

**Gofyniad i gau llwybrau cyhoeddus a thir penodol a pheidio â mynd iddynt yn ystod cyfnod yr argyfwng**

**9.**—(1) Pan fo paragraff (2) yn gymwys i lwybr cyhoeddus neu dir mynediad yn ardal awdurdod perthnasol, rhaid i'r awdurdod perthnasol, yn ystod cyfnod yr argyfwng—

(a) cau'r llwybr cyhoeddus neu'r tir mynediad, a

(b) ei gadw ar gau tan y cynharaf o'r canlynol—

(i) diwedd cyfnod yr argyfwng, neu

(ii) yr adeg pan yw'r awdurdod yn ystyried nad yw'r cau yn angenrheidiol i atal, i ddiogelu rhag, i reoli neu i ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint yn ei ardal â'r coronafeirws.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i'r llwybrau cyhoeddus a'r tir mynediad yn ardal awdurdod perthnasol y mae'n ystyried —

(a) eu bod yn debygol o ddenu niferoedd mawr o bobl yn ymgynnull neu'n dod yn agos i'w gilydd, neu

(b) bod eu defnydd fel arall yn peri risg uchel i fynychder a lledaeniad haint yn ei ardal â'r coronafeirws.

(3) Pan fo llwybr cyhoeddus wedi ei gau o dan reoliad 4 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws: Cau Busnesau Hamdden, Llwybrau Troed a Thir Mynediad)(Cymru) 2020(**1**), mae'r llwybr i'w drin fel pe bai wedi ei gau o dan baragraff (1) o'r rheoliad hwn.

(4) Ni chaiff unrhyw un ddefnyddio llwybr troed neu dir mynediad sydd ar gau yn rhinwedd paragraff (1) oni bai ei fod wedi ei awdurdodi gan yr awdurdod perthnasol.

(5) Rhaid i'r awdurdod perthnasol—

(a) cyhoeddi rhestr o lwybrau cyhoeddus neu dir mynediad sydd ar gau yn ei ardal ar wefan;

(b) codi a chynnal hysbysiadau mewn mannau amlwg sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd bod llwybr cyhoeddus neu dir mynediad ar gau.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at lwybr cyhoeddus neu dir mynediad yn cynnwys rhannau o lwybr cyhoeddus neu dir mynediad.

(7) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "awdurdod perthnasol" yw—

(i) awdurdod lleol,

(ii) awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru,

(iii) Cyfoeth Naturiol Cymru, neu

(iv) yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol;

(**1**) O.S. 2020/334 (Cy. 76).

(b) ystyr "llwybr cyhoeddus" yw llwybr troed, llwybr ceffylau, cilffordd, cilffordd gyfyngedig neu lwybr beiciau ac

(i) mae i "llwybr troed", "llwybr ceffylau" a "llwybr beiciau" yr un ystyr â "footpath", "bridleway" a "cycle track" yn adran 329(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980(**2**);

(ii) ystyr "cilffordd" yw cilffordd sydd ar agor i bob traffig o fewn yr ystyr a roddir i "bridleway open to all traffic" gan adran 66(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**3**);

(iii) mae i "cilffordd gyfyngedig" yr ystyr a roddir i "restricted byway" gan adran 48(4) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**4**);

(c) mae "tir mynediad" yn cynnwys tir y mae gan y cyhoedd fynediad iddo yn rhinwedd ei berchnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ond fel arall mae iddo yr un ystyr ag "access land" yn adran 1(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**5**).

(**2**) 1980 p. 66. Diwygiwyd adran 329 gan adran 1 o Ddeddf Llwybrau Beicio 1984 (p. 38) a pharagraff 21 o Atodlen 3 i Ddeddf Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Canlyniadol) 1988 (p. 54).
(**3**) 1981 p. 69.
(**4**) 2000 p. 37.
(**5**) 2000 p. 37. Diwygiwyd adran 1(1) gan adran 302(2)(a) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23)